

## **GWEINIDOGION CYMRU**

**CYNLLUN CEFNFFORDD CASTELL NEDD I'R FENNI (A465) (DEULI O'R FENNI I HIRWAUN, FFYRDD YMUNO AC YMADAEL A FFYRDD YMYL)  
ADRAN 2 - GILWERN I FRYNMAWR**

**ASESIAD O EFFAITH AMGYLCHEDDOL  
HYSBYSIAD O DDATGANIAD  
AMGYLCHEDDOL YN UNOL AG ADRAN 105 B  
O DDEDDF PRIFFYRDD 1980 (FEL Y'I  
DIWYGIWYD)**

**A  
RHEOLIADAU GWARCHOD CYNEFINOEDD A  
RHYWOGAETHAU 2010 - RHEOLIADAU 61, 62  
AND 66:**

**ASESIAD O'R GOBLYGIADAU I SAFLEOEDD  
EWROP;**

**DATGANIAD I HYSBYSU ASESIAD PRIODOL  
O EFFAITH AMGYLCHEDDOL Y CYNLLUN  
(SIAA);**

**DATGANIAD AM ATEBION ERAILL,  
RHESYMAU HOLLBWYSIG O SAFBWYNT  
BUDD CYHOEDDUS TRA PHWYSIG A  
MESURAU CYDBWYSO (SASICOM).**

Mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu drwy hyn eu bod wedi ystyried y Datganiad Amgylcheddol (ES) a enwir uchod, y Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol (SIAA), yr Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol, yr Atodiad i'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol, y 'Datganiad am Atebion Eraill, Rhesymau Hollbwysig o safbwynt Budd Cyhoeddus Tra Phwysig a Mesurau Cydbwysu (SASICOM)' a'r holl sylwadau ysgrifenedig a wnaed mewn ymateb i gyhoeddi'r dogfennau hyn a'u bod wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r prosiect. Mae copïau o'r Datganiad Amgylcheddol (ES), gan gynnwys y Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol (SIAA) a'r Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol, y Crynodeb Annhechnegol (NTS) ohono, yr Atodiad i'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol, y Datganiad am Atebion Eraill, Rhesymau Hollbwysig o safbwynt Budd Cyhoeddus Tra Phwysig a Mesurau Cydbwysu (SASICOM)' a'r llythyr penderfyniad, gan gynnwys unrhyw amodau, y rhesymau a'r ystyriaethau oedd y tu ôl i'r penderfyniad hwnnw ac Adroddiad yr Arolygydd a gynhaliodd yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r Cynllun, wedi'u hadneuo yn y manau canlynol:-

Y Gangen Gorchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ;

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,  
Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu LD3  
7HP;

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent,  
Swyddfeydd y Cyngor, y Ganolfan Ddinesig,  
Glynebwy NP23 6XB;

Llyfrgell Brynmawr, Sgwâr y Farchnad, Brynmawr  
NP23 4AJ;

Cyngor Sir Fynwy, Siop Un Stop, Neuadd y Farchnad,  
Cross Street, Y Fenni NP7 5HD.

Ile y gellir eu harchwilio am ddim yn ystod oriau  
busnes rhesymol o 02 Hydref 2014 i 13 Tachwedd  
2014.

Bydd y dogfennau hefyd ar gael yng Nghyngor  
Cymuned Llanelli, Canolfan Gymunedol Gilwern,  
Common Road, Gilwern NP7 0DS o ddydd Llun i  
ddydd Mercher rhwng 9.30 a 12.30.

Mae copïau o'r Datganiad Amgylcheddol, gan  
gynnwys yr Atodiad iddo a'r dogfennau sydd wedi'u  
rhestru uchod, ar gael oddi wrth Llywodraeth Cymru  
yn y cyfeiriad a nodir isod am y prisiau canlynol:-

Datganiad Amgylcheddol, Cyfrol 1 (Adroddiad yr  
Asesiad Technegol) - £50

Datganiad Amgylcheddol, Cyfrol 2 (Ffigyrau) - £50

Datganiad Amgylcheddol, Cyfrol 3, Rhannau 1 i 6  
(Atodiadau Technegol) - £50 (yr un)

Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol - £50

Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol (SIAA), gan  
gynnwys yr Atodiad a'r SASICOM - £15.

Gellir prynu copïau electronig o'r Datganiad  
Amgylcheddol, gan gynnwys yr atodiad iddo, a'r  
Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol, gan gynnwys yr  
Atodiad iddo, a'r SASICOM am £5.

Cyhoeddwyd copi electronig o'r Crynodeb  
Annhechnegol ar-lein yn [www.wales.gov.uk/transport](http://www.wales.gov.uk/transport).

**GALL UNRHYW UN SYDD WEDI CAEL EI  
DRAMGWYDDO** gan y penderfyniad a wnaed i fwrw  
ymlaen â'r cynllun ar ôl cyhoeddi'r Datganiad  
Amgylcheddol, y Datganiad i Hysbysu Asesiad  
Priodol, y SASICOM, eu Hatodiadau cysylltiedig a'r  
sylwadau ar y rhain, ac sydd am gwestiynu ei  
ddilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth  
ynddo, wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos i 02  
Hydref 2014 neu ymhen 6 wythnos ar ôl y dyddiad y  
cyhoeddwyd yr hysbysiad hwn am y tro cyntaf, os  
bydd cyfnod o'r fath yn dod i ben yn hwyrach na hyn  
ar y sail ganlynol:

nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980, neu na chydymffurfiwyd â gofyniad o dan y Ddeddf honno neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno yng nghyswllt y penderfyniad hwnnw,

Os gwneir cais o'r fath, gall y Llys atal neu ddiddymu'r penderfyniad hwnnw neu unrhyw ddarpariaeth ynddo.

Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect, y Datganiad Amgylcheddol, y penderfyniad neu'r hysbysiad hwn ar gael oddi wrth Llywodraeth Cymru, y Gangen Gorchmynion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Mae copi print bras o'r hysbysiad hwn ar gael oddi wrth Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad a nodwyd uchod.

**M D BURNELL**  
**Cangen Gorchmynion Trafnidiaeth**  
**Llywodraeth Cymru**